

WILLIAMS, Syr TREVOR (c. 1623 - 1692), Llangibby, sir Fynwy, gwleidyddwr

Enw: Trevor Williams
Dyddiad geni: c. 1623
Dyddiad marw: 1692
Priod: Elizabeth Williams (née Morgan)
Rhiant: Charles Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwleidyddwr
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: Arthur Herbert Dodd

yn disgyn o briodas Howel Gam ap David (*fl.* 1300) â merch i [deulu Scudamore](#). Mabwysiadwyd y cyfenw'n gyntaf gan ei daid, Roger William (bu farw 1583), a oedd yn siryf sir Fynwy yn 1562 ac a ddilynwyd yn y swydd honno yn 1627 gan ei fab, Syr Charles Williams, tad Syr Trevor Williams; bu Syr Charles Williams, a wnaethpwyd yn farchog yn 1621, yn aelod seneddol y sir y flwyddyn honno hefyd eithr parodd afiechyd iddo fod yn ddi-ddefnydd fel aelod, a bu farw yn ystod sesiwn y Senedd (Mawrth 1642). Gwnaethpwyd ei fab, Trevor, yn gomisiynwr cad-ddarpar yn sir Fynwy pan dorrodd y Rhyfel Cartrefol allan ac yn farwnig ar 14 Medi 1642. Cymerwyd ef yn garcharor gan y Rowndiaid yn Highnam ar 25 Mawrth 1643, eithr wedi iddo gael ei ryddhau trefnodd warchodlu o 60 o ddynion i amddiffyn hen gastell Llangibby, a oedd heb gael ei ddefnyddio ers amser, ar ran y brenin; bu iddo hefyd gymryd rhan yn yr hyn a oedd yn mynd ymlaen yn Nhrefynwy a'r cyffiniau yn 1644. Gan ei fod yn denant i [ieirll Pembroke](#) yr oedd yntau â chyfran ganddo yn yr hen gweryl ac anghydfod â theulu [Somerset](#) ac yr oedd yn anfoedlon iawn oblegid y ffafr a ddangosid gan y brenin i deulu Catholig - yn enwedig y comisiwn a roesid i [iarll Glamorgan](#) i ddyfod â milwyr Gwyddelig drosodd i Gymru, comisiwn y daeth y wybodaeth amdano yn hysbys erbyn mis Mehefin 1645; o'r herwydd bu Williams yn gwrthwynebu gwaith Syr Jacob Astley a fu'n ceisio, y mis Awst dilynol, gael gw r i ymladd ym myddin y brenin, a chymerwyd ef i'r ddalfa yn y Fenni ar 11 Hydref ar orchymyn y brenin. Cafodd ei ryddhau yn ddiweddarach, wedi iddo ddarparu meichiafon, a phan ddigwyddodd hynny cymerodd feddiant o gastell Trefynwy a'i ddal yn erbyn y brenin (24 Hydref), a bu'n helpu hefyd pan oeddid yn gwarchae ar gastell Raglan y flwyddyn ddilynol. Yn ystod yr ail Ryfel Cartrefol, gan ei fod yn cael ei ddychrynu braidd gan oruchafiaeth Cromwell a phenderfyniad T 'r Cyffredin (7 Mawrth 1648) i roi i hwnnw faenorau [teulu Somerset](#) ym Morgannwg a Mynwy, yn eu plith rai Casgwent yn arbennig (y chwenychai ef eu cael iddo ei hun), cynorthwyodd Syr Nicholas Kemys i gymryd a dal castell Casgwent dros y brenin, ym mis Mawrth 1648, hyd nes y cymerwyd ef dros Cromwell ar 25 Mai. Ar waethaf hyn rhoddwyd Williams ar y pwyllgor milisia lleol ar 12 Mai, eithr ni adawyd iddo gael manteisio ar y 'General Composition Act for South Wales' (23 Chwefror 1649). Er i'w stad gael ei chynnwys ymysg y rhai a oedd yn cael eu cymryd oddi ar eu perchenogion o dan gyfundrefn 'sequestration,' ni chymerwyd mohoni, gan iddo ennill yn ei apêl at farwniaid yr 'exchequer'; yn wir prynodd ef ei hunan diroedd yng Nghaerdydd a Llanelwyr yn 1650 a gymerwyd oddi ar Frenhinwyr (o dan gynllun y 'sequestration' eto), ac ymheddychodd â'r ddiffynwriaeth gan fynd cyn belled ag ymwadu â'i deitl o farwnig am gyfnod (1657). Eithr ni chafodd yr un swydd gyhoeddus hyd at fin yr Adferiad - cyn i hynny ddigwydd gosodwyd ef ar bwyllgorau trethi a milisia ei sir (Ionawr a Mawrth 1660), a bu'n cynrychioli bwrdeisdrefi'r sir yn Senedd y Confensiwn ym mis Ebrill.

Wedi'r Adferiad, cymerodd Williams bardwn o dan sel fawr y deyrnas. Ym mis Tachwedd 1667 llwyddodd i gael ei ddewis yn aelod seneddol dros sir Fynwy (yn erbyn gwrthwynebiad) mewn is-etholiad a achoswyd pan ddaeth aer [Raglan yn ardalydd Worcester](#). Bu'n eistedd dros y bwrdeisdrefi yn Senedd 1679 ac wedi hynny dros y sir yn seneddau 1680 a 1681. Oherwydd ei fod yn pleidio yr hyn a ddaeth i'w adnabod wrth yr enw 'Country Party' collodd (ym mis Chwefror 1680) ei swydd fel ustus heddwch yn sir Fynwy. Dialodd am hyn y mis Ionawr dilynol trwy uno â [John Arnold](#) i ofyn am gael symud [iarll Worcester](#), a gyhuddid ganddynt o ddodi Pabyddion i fod yn warchodlu castell Casgwent, o lys y brenin ac o'r Cyfrin Gyngor; gwrthateb [Worcester](#) (a oedd erbyn hyn yn [ddug Beaufort](#)) ydoedd cael, ym mis Tachwedd 1683, ddyfarniad o 'scandalum magnatum' yn ei erbyn, ynghyd â dirwy a'i tlododd yn fawr ac a barodd i'w yrfa wleidyddol gael ei dirwyn i ben. Pan fu Williams farw yn 1692 pasiodd y teitl (a chynrychiolaeth sir Fynwy yn y Senedd o 1698 hyd 1708) i'w ddau fab, y naill ar ôl y llall, o'i wraig Elizabeth, aeres [Thomas Morgan](#), Machen (ei gyd-aelod seneddol dros y sir); eithr collwyd y teitl pan fu farw ei or-nai Syr Leonard Williams yn 1758. Yr adeg honno aeth y stad, trwy briodas, i feddiant y teulu presennol, sef Addams-Williams, Llangibby.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

Bradney, iii, 96-104

Cylchgrawn Lyfrgell Genedlaethol Cymru, i, 47-9, vi, 255, a ffynonellau a enwir yno

The Journals of the House of Commons, ii, 162, 489; v, 482, 566; ix, 531-609

Thomas Carlyle, Lomas (gol.), *Oliver Cromwell's letters and speeches with elucidations* (New York 1849), i, 294, 315-7; ii, 253

Reports of the Historical Manuscripts Commission, 7th R., 498; 9th R., ii, 85-6, 112, 115-67; 12th R., ix, 68, 74, 99, 104, 114

Calendar of the Committee for Compounding with Delinquents, etc., 1643-1660, i, 533; iii, 2304; iv, 2947

Firth a Rait, *Acts and Ordinances of the Interregnum, 1642-1660* (London 1911), i, 970, 1087, 1136; ii, 15, 1374, 1437

A Full Relation of the Desperate Design for the betraying of Monmouth (1645), 1645

Two Letters from Colonell Morgan. Governor of Gloucester, ... relating the summons, answer and the manner of taking the

Town and Castle of Monmouth ... Likewise two letters [signed, K. R.] from an officer in Monmouth, concerning the free comming in of the country to block up Hereford, etc (Llundain 1645), 1645

Three Victories in Wales ... and a copy of the articles for the surrender of Rother castle to maior generall Mitton, etc.

Certified by severall letters, etc (Llundain 1646), 1646

The Gallant Siege of the Parliament's Forces before Ragland Castle maintained by Colonel Morgan, etc. [Two letters, signed M. P.] (Llundain 1646), 1646

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895), 126, 136

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7529332](https://www.wikidata.org/wiki/Q7529332)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

